# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 2il 2025 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (cadeirydd), Eilir Rowlands, Rita Jones, Iolo Evans, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Gary Thomas a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards

Yn dilyn eu profedigaethau diweddar, cydymdeimlwyd a Bethan Thomas ac Eifion Davies.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfodydd mis Gorffennaf a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Roedd gweithlu'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi torri'r glaswellt o gwmpas y fainc ar lwybr troed Llanfor.
ii) Roedd y contractwr wedi tocio'r canghennau'r goeden a oedd yn mynd drosodd i ardd un o gymdogion mynwent Frongoch.

b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned – Cais mynwent St. Mark, Frongoch.
Adroddodd y clerc fod cynnig am arian ychwanegol wedi cyrraedd ar ôl y cyfarfod diwethaf ac wedi ymgynghori, cytunwyd i ddefnyddio'r arian i ehangu'r llwybr troed. Cymeradwywyd cais y Cyngor a derbyniwyd £9,000. Roedd y contractwyr am gychwyn y gwaith yn fuan.

c) Ciosg ffôn pentref Llandderfel.
Eglurodd y clerc y byddai'r Cyngor yn berchen y ciosg yn swyddogol ar y 10/09/25 ac roedd cyfarwyddiadau wedi cael ei roi i'r cwmni yswiriant i'w ychwanegu i'r polisi. Gofynnwyd i'r clerc ymgynghori gyda'r pwyllgor lleol ynglŷn â'i drawsnewid gan cynnig £100 tuag at y gost o brynnu adnoddau.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Un Llais Cymru.
i) Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd. Roedd y cynghorwyr yn teimlo y byddai'r dyletswydd o ddarlledu ychwanegol yma yn gostus ac y byddai'n well defnyddio'r arian ar wasanaethau hanfodol eraill.

b) Amrywiol.
i) Gwahoddiad i Wŷl Glan-Llyn, 27/09/25. Cytunodd Bethan Thomas fynychu'r digwyddiad.
ii) Llythyr gan deulu lleol ynglyn a'r bygythiad i gyllido elusennau sy'n darparu gofal cymdeithasol. Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu unrhyw fygythiad i gyllido gofal hanfodol fel hyn.
iii) Gwahoddiad i agoriad swyddogol cae astro newydd Y Bala, 10/09/25. Cytunodd Rita Jones fynychu'r digwyddiad.

v) Ceisiadau Cynllunio
Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau.

**vi) Materion Ariannol.**
a) Derbyniadau.
Derbyniwyd ail randal y Praesept - £7,500.



Arwyddwyd: ………………………………………….      Dyddiad: …………………………………..

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu:-
i) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd).
ii) Cyngor Gwyned (archwiliad mewnol).
iii) Gwasanaeth Torri Coed Tom Edwards (Mynwent Frongoch).

c) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd cais gan Gofal Ganser Tenovus a chytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Cwyn am gyflwr y ffordd a'r gwrychoedd sy'n arwain at y fynwent yn Llandderfel.
ii) Canghennau coed yn dod dros y llwybr troed yn ystad Glan Tryweryn, Frongoch.
iii) Gwrychoedd/coed rhwng Bryn Melyn a Pale Wood, Llandderfel angen eu torri'n nôl.
iv) Sbwriel angen ei glirio o'r gilfan fach sydd rhwng Tŷ Nant a Cynlas, Cefnddwysarn.
v) Bocs BT ar y gyffordd rhwng ffordd Pale a'r B4391 Cletwr, yn amharu ar welededd gyrrwyr.
vi) Cais am amserlen bws ger y lloches yng Nghefnddwysarn.
vii) Ymholiad pan nad oedd cyfyngiad cyflymder 20 m.y.a. ym mhentref Sarnau ac wrth ysgol Ffridd y Llyn, Cefnddwysarn.
viii) Draen wedi suddo ar yr A494 o dan fferm Ty'n Fedw, Bethel.
ix) Gwrych ar yr ochr chwith wrth ddod allan o garej Thomas Motor Marts, Glanrafon yn amharu gwelededd gyrrwyr.

b) Cynllun Cofeb Tryweryn.
Trafodwyd y cyhoeddusrwydd diweddar i'r cynlluniau i leoli'r gofeb a datblygu'r capel coffa a mynegwyd siom nad oedd y pwyllgor wedi ymghynghori a'r Cyngor Cymuned o flaen llaw.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref 7fed am 7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.


Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: ……………………………………..